Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 50 | Pris i aelodau: £5.00 y flwyddyn | Pris i'r cyhoedd: £1.30 y rhifyn | Awst 1993

# JOHN PENRY

YM MLWYDDYN cofio mai ar ddydd Mawrth, 29 Mai 1593, y crogwyd y Piwritan o Gymro o'r hen sir Frycheiniog, John Penry, yn St. Thomas a Watering, Llundain, wedi iddo gael ei ddyfarnu'n euog ar gyhuddiad o wrthwynebu'r Frenhines a cheisio dymchwel yr Eglwys Wladol mae'n briodol fod *Y Casglwr* yn talu teyrnged iddo trwy gyfeirio at dri thraethawd o'i eiddo sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â Chymru a thrwy godi cwr y llen ar ddirgelwch ei bulpud coffa.

Cyhoeddwyd y cyntaf o'r traethodau hyn yn 1587 o dan y teitl hir *A treatise containing the aequity of an humble supplication which is to be exhibited unto his Gracious Majesty and this high Court of Parliament in the behalfe of the Countrey of Wales . . .* Argraffwyd y gwaith yn Rhydychen gan Joseph Barnes. Nid oedd Whitgift, Archesgob Caer-gaint yn fodlon o gwbl â'r gwaith a gwysiwyd Penry i ymddangos o flaen yr Archesgob a Llys yr Uchel Gomisiwn ar gyhuddiad o fod wedi ymosod ar offeiriaid yr Eglwys Wladol. O ganlyniad i'r ymddangosiad yn y Llys carcharwyd Penry am fis a gorchmynnwyd difetha pob copi posibl o'r *Acquity.* Gwyddom fod dau gopi o leiaf wedi goroesi a bod un ohonynt yn awr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a bod y llall yn y Llyfrgell Brydeinig.

Ymateb John Penry i'r hyn ddigwyddodd iddo oedd mynd ati ar unwaith i ysgrifennu apêl arall dros Gymru. Teitl y gwaith hwn yw *An exhortation unto the governors, and people of his Majesties countries of Wales, to labour earnestly, to have the preaching of the Gospell planted among them.* Fe'i cyhoeddwyd yn 1588, blwyddyn cyhoeddi Beibl William Morgan, ac fe'i hargraffwyd gan Robert Waldegrave a John Penry yn Llundain. Mae'n ymddangos fod yna dri argraffiad o'r *Exhortation* wedi eu cyhoeddi. Yn ôl pob golwg nid oes copi o'r argraffiad cyntaf wedi goroesi ac mae lle i gredu fod y copi o'r ail argraffiad sydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gopi unigryw. Mae'r copi o'r trydydd argraffiad sydd yn y Llyfrgell Brydeinig yn un arbennig o ddiddorol gan fod ynddo restr gwallau sydd yn datgan mai *'made Deacons or full Priestes'* ddylai llinell 24 ar dudalen 42 fod ac nid *'mad Deacons or foule Priestes'.*

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn cyhoeddodd Penry ei drydydd apêl ar ran Cymru ar ffurf ple arall i'r Senedd. Y teitl llawn yw *A viewe of some part of such publike wants and disorders as are in the service of God, with her Majesties countrie of Wales, togither with an humble Petition, unto this high Court of Parliament for their speedy redresse.* Cyfeirir at y gwaith fel y *Supplication* gan mai dyma'r teitl sydd yn ymddangos ar frig y tudalennau. Mae'n debyg mai Waldegrave a Penry argraffodd y llyfryn hwn hefyd a hynny ar y wasg gudd symudol a ddefnyddiwyd i argraffu gweithiau Martin Marprelate tua'r un adeg. Mae'n amlwg mai

(Parhad ar dudalen 2)

## DIRGELWCH Y PULPUD COFFA

(Gweler tudalen 18)

